

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Hydref 10fed 2017 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Euros Puw, Geraint Davies, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Huw Charles, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Davies a Jean Roberts.

Croesawyd Huw Charles i'w gyfarfod cyntaf. Cydymdeimlwyd ac Euros Puw yn dilyn ei brofedigaeth yn ddiweddar.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Llochesi bws Rhyduchaf a Parc.

Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer atgyweirio'r lloches yn Rhyduchaf a phenderfynwyd rhoi'r gwaith i Aled Charles. Gofynnwyd i'r clerch eu hysbysu a nodi dymuniad y Cyngor fod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted a phosib. Cytunodd Geraint Davies wneud ymholiadau ynglŷn â gwaredu deunydd lloches Parc pe byddai'r Cyngor yn ei dynnu i lawr. Derbyniwyd cais i osod lloches newydd yn y pentref. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

b) Derbyniwyd yr ymatebion isod gan Gyngor Gwynedd i'r cwynion a anfonwyd atynt:-

i) Pont Bryn Ifan, Arenig – cafwyd cadarnhad fod canllaw'r bont wedi cael ei drwsio.

ii) Ffosydd angen eu hagor rhwng rhiw Parc a Pant Neuadd - cafwyd cadarnhad fod y gwaith wedi cael ei ychwanegu i restr y gweithlu.

iii) Torri ochrau'r ffyrdd - roedd y gweithlu wedi ail ymweld ar ardal ac wedi tacluso'r safleoedd priodol.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Enwebu Cynghorwyr ar Gyrff Llywodraethol yr ysgolion - derbyniwyd cais i'r cyngor enwebu cynrychiolydd i Gyrff Llywodraethol yr ysgolion cynradd lleol. Roedd y clerch yn ymwybodol for ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn wedi cael ei ffederaleiddio a bod cyrff llywodraethol unigol yr ysgolion yn dod di ben a'u bod am ffurfio corff llywodraethol ffederal. Gan nad oedd y Cyngor Cymuned wedi cael eu hysbysebu o hyn roedd y clerch wedi anfon am arweiniad ynglŷn ar nifer o gynrychiolwyr oedd angen i'r cyngor eu henwebu (ar hyn o bryd roedd gan y cyngor un cynrychiolydd ar gorff llywodraethol Ysgol Ffridd y Llyn a chynrychiolydd bob yn ail gyda Cyngor Cymuned Llanycil ar gorff llywodraethol Ysgol Bro Tryweryn). Derbyniwyd e-bost yn egluro mae un cynrychiolydd oedd ei angen ond dim cadarnhad os fyddai'r trefniant bob yn ail gyda Chyngor Cymuned Llanycil yn parhau. Nid oedd y cynghorwyr yn fodlon o gwbl gyda'r ymateb gan Chyngor Gwynedd a chytunwyd yn unfrydol y dylid cael un cynrychiolydd o bob cyngor cymuned gan fod plant o'r ddwy ardal yn mynychu'r ysgolion.

ii) Cynllun Hunaniaith - gwybodaeth am y cynllun i geisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol.

b) Panel yr Adolygiad Annibynnol

ii) Adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned a Thref – manylion am y digwyddiadau ymgynghori.

v) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) - cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:- Cyflog y Clerc (Gorff-Medi) a Swyddfa Archwilio Cymru (Archwiliad Allanol)

vi) Unrhyw Fater Arall

a) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

i) Torri coed helyg rhwng Cynythog a Gwernbusaig, Maesywaen - roedd canghennau'r coed yn amharu ar welededd gyrwyr.

ii) Cyffdy, Parc - roedd pryder fod y ffordd yn dirywio'n gyflym a gofynnwyd i'r clerc bwysu ar y swyddogion i atgyweirio'r ffordd cyn gynted a phosib.